# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 – Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 24 Ebrill 2023

Amser: 11.30 - 13.52

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13312

# O bell

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>James Evans AS<br>Peredur Owen Griffiths AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Ni chafwyd ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

### 2.1 SL(6)343 – Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Awdurdodiadau ac Addasiadau i Awdurdodiadau) (Cymru) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 3 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

### 3.1 SL(6)291 – Rheoliadau Ychwanegion Bwyd, Cyflasynnau Bwyd, a Bwydydd Newydd (Awdurdodiadau) a Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023.

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.2 SL(6)345 – Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygiadau sy’n Ymwneud ag Absenoldeb Profedigaeth Rhiant ac Absenoldeb Rhiant a Rennir) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 4 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

### 4.1 SL(6)336 – Rheoliadau’r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth â’r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

### 4.2 SL(6)340 – Gorchymyn Contractau Adeiladu (Eithrio) (Cymru) 2023

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth â’r Gweinidog Newid Hinsawdd

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer eitemau 6, 9 a 10.

Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Y Bil Bwyd (Cymru): Adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft a chytunodd i ystyried fersiwn ddiwygiedig mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 7 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 7.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Iechyd Planhigion a Chyflyrau Ffytoiechydol (Gwyfyn Ymdeithiwr y Derw a Phlâu Planhigion) (Diwygio) 2022

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog.

### 7.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Diwygiadau deddfwriaethol i ganiatáu newid mewn Seroteipio Salmonela

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog.

### 7.3 Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau REACH (Diwygio) 2023

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog.

## 8 Papurau i'w nodi

### 8.1 Gohebiaeth gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at y Llywydd: Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol

Nododd y Pwyllgor lythyr gan  Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at y Llywydd

### 8.2 Gohebiaeth gan Weinidog yr Economi: Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd).

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog.

### 8.3 Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Papur gwyn ar Ddiwygio Etholiadol

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

**8.4 Datganiad Ysgrifenedig gan y Prif Weinidog: Y wybodaeth ddiweddaraf am Diwygio'r Senedd**

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan y Prif Weinidog.

**8.5 Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Bil Ardrethu Annomestig Llywodraeth y DU**

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog.

**8.6 Datganiad Ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi: Y wybodaeth ddiweddaraf am fesurau rheoli ffiniau**

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog.

**8.7 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol at y Llywydd: Y Bil Dioddefwyr a Charcharorion**

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol at y Llywydd.

**8.8 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Lleol: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru ynghylch y Bil Caffael.**

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog.

**8.9 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid at gadeiryddion y pwyllgorau: Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25**

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at gadeiryddion y pwyllgorau.

**8.10 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio):**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth â'r Gweinidog.

### 8.11 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru ynghylch y Bil Caffael.

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad:

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ynghylch y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol: Adroddiad drafft

Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad drafft.

## 10 Cytundebau rhyngwladol:

Nododd y Pwyllgor y cytundebau rhyngwladol a ganlyn:

- Y DU-Iwerddon-y Comisiwn Ewropeaidd: rhaglen PEACE PLUS
- DU-INTERPOL: Cytundeb ar Freintiau ac Imiwneddau INTERPOL ar Diriogaeth y DU

Cytunodd y Pwyllgor i drafod ei adroddiad drafft ar y cytundebau mewn cyfarfod yn y dyfodol. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i dynnu sylw pwyllgorau perthnasol y Senedd at y cytundebau rhyngwladol.

**Made Negative Resolution Instruments**

**Made Negative Resolution Instruments**

**Affirmative Resolution Instruments**